# CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein hadolygiad i effeithiau posibl deddfwriaeth arfaethedig sy'n ymwneud ag adnabod electronig (EID) ar gyfer gwartheg ac anifeiliaid buchol eraill ar fasnach marchnad fewnol y DU. Dyma ein hadolygiad byr cyntaf, dadansoddiad amserol wedi'i dargedu o wahaniaethau rheoleiddiol posibl i gefnogi llunio polisïau effeithiol ar draws y pedair gwlad. Lansiwyd yr adolygiad ar 17 Gorffennaf 2025.

2. Rydym wedi tynnu ein tystiolaeth o ddwy brif ffynhonnell: 51 o gyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant a'r llywodraeth a setiau data ar symudiadau gwartheg. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn am eu hymgysylltiad gweithredol.

**Cefndir yr adolygiad**

3. Mae Llywodraeth y DU a'r tair llywodraeth ddatganoledig ar wahanol gamau o'r cylch datblygu polisi ar gyfer polisïau EID ar gyfer gwartheg, ac nid yw EID gorfodol mewn gwartheg wedi'i gyflwyno mewn unrhyw ran o'r DU eto. Disgwylir y bydd yr Alban yn cyflwyno tagiau EID gorfodol ar gyfer gwartheg sy'n defnyddio technoleg amledd uwch-uchel (UHF), tra bydd Cymru a Lloegr yn cyflwyno tagiau gorfodol yn seiliedig ar dechnoleg amledd isel (LF). Disgwylir i Ogledd Iwerddon, os bydd yn cyflwyno system, gyd-fynd ag arfer yn yr Undeb Ewropeaidd, lle mae'n rhaid i dagiau EID ddefnyddio technoleg amledd isel ar hyn o bryd.

4. Mae hyn yn golygu y bydd dwy safon dechnegol wahanol o ran EID ar gyfer gwartheg yn gweithredu o fewn y DU. Nid yw'r technolegau'n rhyngweithredol â'i gilydd, yn yr ystyr na all darllenydd LF ddarllen tag UHF ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn codi'r posibilrwydd y bydd rhai ceidwaid gwartheg yn delio â gwartheg sydd â thagiau LF ac UHF. Os ydyn nhw am ddarllen y tagiau hyn yn electronig, bydd angen darllenwyr tag LF ac UHF arnyn nhw felly. Gallai hyn gynyddu costau symud gwartheg ar draws ffiniau cenedlaethol – yn enwedig ar draws y ffin rhwng Lloegr a’r Alban – ac o bosibl effeithio ar fasnach o fewn y DU.

**Faint o fasnach allai gael ei effeithio?**

5. Rydym wedi edrych ar faint o fasnach drawsffiniol mewn gwartheg a allai gael ei heffeithio. Mae tua 200,000 o wartheg y flwyddyn yn croesi'r ffin rhwng Lloegr a'r Alban, sy'n cynrychioli tua 30% o holl fasnach drawsffiniol y farchnad fewnol mewn gwartheg a 4% a 12% o'r poblogaethau gwartheg yn Lloegr a'r Alban yn y drefn honno. O'r rhain, mae tua chwarter yn symud i siroedd ar hyd ochr arall y ffin, sy'n dangos, er y gallai'r effaith mewn siroedd ar y ffin fod yn arbennig o acíwt, na fydd unrhyw effeithiau masnach wedi'u cyfyngu i ranbarthau ar y ffin yn unig. Mae

masnachu gwartheg ar draws y ffin rhwng Lloegr a'r Alban wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf mewn termau absoliwt ac o'i gymharu â llifau trawsffiniol eraill.

**Prif Ganfyddiadau**

6. Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid wrthym y byddai'n well ganddynt gael un dull o dagio EID ar gyfer gwartheg ledled y DU. Fodd bynnag, nid oedd consensws ymhlith cyfranogwyr y farchnad ynghylch a oedd technoleg EID LF neu UHF yn well. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater datganoledig a bod gan lywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru resymeg polisi domestig dros eu dull arfaethedig. O ystyried hyn, fe wnaethom ganolbwyntio ar yr effaith debygol o gael dwy safon yn gweithredu o fewn y DU a'r graddau y gellid lliniaru unrhyw effeithiau masnach niweidiol.

7. Gan ystyried y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd, rydym wedi dod i'r farn y byddai mabwysiadu dwy safon dechnegol ar gyfer EID yn y DU, os cânt eu rheoli'n ofalus, yn cael effaith gyfyngedig ar *batrwm a chyfanswm y cyfaint* yn gyffredinol o ran masnach yn y farchnad fewnol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr effaith yn berthnasol i'r busnesau yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol.

8. Hyd yn oed os cânt eu rheoli'n dda, bydd dwy safon dechnegol yn cyflwyno *costau buddsoddi a gwrthdaro masnach* ychwanegol, o'i gymharu â sefyllfa lle mabwysiadwyd un safon. Mae'r costau'n cynnwys: costau darllenwyr EID ychwanegol; uwchraddio posibl i feddalwedd i ganiatáu i ddata o dagiau LF ac UHF gael ei drin a'i drosglwyddo i'r cronfeydd data perthnasol yn rhwydd; ac efallai newidiadau i'r seilwaith i ddarparu ar gyfer yr offer ychwanegol. Bydd y costau buddsoddi ychwanegol hyn yn effeithio fwyaf ar farchnadoedd arwerthiant da byw mwy o faint (o hyn ymlaen 'marchnadoedd' er byrder) a lladd-dai a byddant yn cael yr effaith fwyaf mewn rhanbarthau sy'n ffinio â'r ffin rhwng Lloegr a'r Alban ond ni fyddant yn gyfyngedig i'r busnesau neu'r rhanbarthau hynny. Yn absenoldeb dull clir a chydlynol o reoli masnach drawsffiniol, mae risg uwch y gallai diwydiant wneud buddsoddiadau diangen neu fuddsoddiadau sy'n dod yn afraid.

9. Rydym wedi edrych ar gostau offer cymharol gwahanol ddulliau o gefnogi dwy safon dechnegol dros bum mlynedd cyntaf y cyflwyniad. Rydym yn cymharu'r senario damcaniaethol (Senario 1) lle dim ond un safon dechnegol a ddefnyddir â dau ddewis amgen. Y dewis amgen cyntaf (Senario 2) yw'r canlyniad y mae'r diwydiant yn ei ragweld, yn benodol y bydd rhai busnesau'n buddsoddi mewn darllenwyr LF ac UHF. Y senario amgen arall (Senario 3) – sydd hefyd yn ddamcaniaethol – yw bod tagiau amledd deuol yn cael eu rhoi ar wartheg adeg eu geni a dim ond buddsoddi mewn darllenwyr LF neu UHF sydd angen i fusnesau ei wneud. Rydym yn amcangyfrif bod Senario 2 tua 4% yn ddrutach na Senario 1 a bod Senario 3 tua 23% yn ddrutach na Senario 1. Rydym yn dod i'r casgliad, er ei bod yn ddrutach o dan unrhyw senario i gefnogi dwy safon dechnegol nag un, y

byddai'n ymddangos bod y dull y mae'r diwydiant yn disgwyl ei fabwysiadu yn cynnwys costau buddsoddi cychwynnol is na'r prif ddewis arall o ddefnyddio tagiau amledd deuol. Bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo'n bennaf gan farchnadoedd, lladd-dai a ffermydd mwy o faint, yn enwedig ger y ffin rhwng Lloegr a'r Alban.

10. Mae gweithredu dwy safon dechnegol ar gyfer EID o fewn y DU yn debygol o gyflwyno gwrthdaro masnach sy'n mynd y tu hwnt i gostau buddsoddi, gan gynnwys mwy o gymhlethdod ac anawsterau posibl wrth nodi a yw anifail wedi'i dagio â thag LF neu UHF. Oni bai eu bod wedi'u cynllunio'n ofalus, gall unrhyw ddatblygiadau rheoleiddiol sy'n gorchymyn lle defnyddir darlleniad EID, hyd yn oed os yw'n wirfoddol, fod rhaid defnyddio math penodol o ddarlleniad EID ar gyfer gwartheg greu anawsterau mwy i fasnach yn y farchnad fewnol, yn enwedig ar ôl i basbortau papur gael eu diddymu'n raddol. Yn yr un modd, bydd angen cydlynu'r dull cyffredinol o gefnogi dwy safon dechnegol a bydd angen iddo fod yn ddigon cadarn i fodloni'r safonau sy'n angenrheidiol i gadw mynediad i farchnadoedd rhyngwladol.

**Ein hargymhellion**

11. O ystyried pwysigrwydd gweithredu effeithiol a chydlynol wrth liniaru costau busnes a risgiau i farchnad fewnol y DU o ganlyniad i wahaniaethau rheoleiddiol arfaethedig, rydym yn gwneud dau argymhelliad i lywodraethau'r DU a'r llywodraethau datganoledig:

**Argymhelliad 1**

12. Rydym yn argymell bod yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a llywodraethau Cymru a'r Alban yn sefydlu gweithgor masnach drawsffiniol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau ffermio, arwerthiannau da byw a lladd-dai/prosesu cig i drafod sut y gellir cynnal masnach drawsffiniol a pha fuddsoddiadau fyddai'n ei chefnogi orau. Wrth i'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) ddatblygu ei pholisi EID, rydym yn argymell ei bod hefyd yn ymuno â'r grŵp hwn. Gellid sefydlu'r grŵp hwn fel gweithgor annibynnol, fel is-grŵp gweithgor Iechyd a Lles Anifeiliaid y Fframwaith Cyffredin presennol neu fel rhan o fforwm rhynglywodraethol arall. Rydym yn argymell bod hyn yn cael ei roi ar waith cyn i fusnesau ddechrau buddsoddi mewn atebion technolegol sy'n angenrheidiol i gefnogi masnach y farchnad fewnol.

13. Dylai canfyddiadau'r adolygiad hwn, a'r adborth a gawsom gan gyfranogwyr yn y diwydiant, helpu i lywio'r rhaglen waith ar gyfer y gweithgor hwn. Fel cam cychwynnol, rydym yn cynnig y dylai'r gweithgor ystyried ein hail argymhelliad yn ogystal â datblygu ymhellach yr amcangyfrifon cost cychwynnol a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2**

14. Rydym yn argymell bod Defra a llywodraethau Cymru a'r Alban yn cydweithio i lunio datganiad clir, ar y cyd ar reoli symudiadau trawsffiniol o fewn Prydain Fawr sy'n defnyddio EID. Ymhen amser, wrth i DAERA ddatblygu ei pholisi ar gyfer Gogledd Iwerddon, gellid ategu hyn gan ddatganiad am reoli symudiadau rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr sy'n defnyddio EID. Byddai hyn o gymorth i'r diwydiant drwy leihau ansicrwydd a chyfyngu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau busnes yn mynd yn sownd oherwydd datblygiadau rheoleiddiol dilynol.

15. Rydym yn argymell hefyd fod llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn nodi i gyfranogwyr y diwydiant y sail y bydd yn dderbyniol defnyddio darlleniad EID ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i'r gronfa ddata genedlaethol berthnasol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Defra yn egluro a fydd yn dderbyniol cyflwyno data i'w cronfeydd data cenedlaethol sydd wedi deillio o dag UHF. Yn yr un modd, rydym yn argymell bod Llywodraeth yr Alban yn nodi a fydd yn dderbyniol cyflwyno data i gronfa ddata ScotEID sydd wedi deillio o dag LF.